ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU

10fed o Dachwedd 2020

TEITL:	DIWEDDARIAD CYLLIDEB REFENIW 2020/21
AWDUR:	Rheolwr Strategol – Bargen Dwf Canolbarth Cymru

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Rhoi diweddariad i Fwrdd TCC ar yr incwm a'r gwariant gwirioneddol hyd yn hyn, yn ogystal â'r canlyniad blwyddyn lawn a ragwelir yn erbyn ei gyllideb refeniw flynyddol.

1.2. Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol o'i sefyllfa gwariant a ragwelir yn erbyn ei gyllideb gymeradwy.

2. Penderfyniad(au) a Geisir

2.1. I dderbyn a nodi'r adroddiad.

3. Cefndir

3.1. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y sefyllfa gyllidebol yn ei chyfarfod diwethaf ar 23/07/20.

3.2. Derbyniwyd incwm gan Lywodraeth Cymru i helpu symud y rhaglen waith ranbarthol yn ei flaen a datblygu'r capasiti angenrheidiol.

3.3. Pan gafwyd y diweddariad diwethaf, roedd swm sylweddol o'r gyllideb heb ei ddyrannu.

3.4. Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad ar y cynnydd i ddyrannu gweddill y gyllideb i symud y rhaglen waith yn ei blaen.

4. Incwm a Gwariant hyd yma 2020/21

4.1. Y sefyllfa ariannol ar gyfer 2020/21 mewn termau incwm a gwariant fel o 30/09/20 yw:

INCWM		
	Eitem	**Gwerth**
	Cyngor Sir Ceredigion	£50,000
	Cyngor Sir Powys	£50,000
	Llywodraeth Cymru	£95,000
	Llywodraeth Cymru (cario drosodd o 2019/20)	£3,802.51
	CYFANSWM INCWM	**£198,802.51**

GWARIANT		
	Cyngor Sir Powys	**Gwerth**
	Gwefan TCC	£9,975
	Ffioedd Ymgynghorwr (Geoff Hughes)	£1,350
	Ffioedd Ymgynghorwr (Paul Griffiths)	£5,203
	Cyflog Swyddog Arweiniol Ynni @ 40% – Ebrill-Medi 2020	£8,972.38
	Cyngor Sir Ceredigion	
	Hyfforddiant Achos Busnes	£4,875.00
	Costau Cyflog Swyddog Arweiniol presennol Ebrill - Medi 2020 @ 40%	£13,904.40
	CYFANSWM GWARIANT 30/09/2020	**£44,279.78**

5. RHAGOLYGON GWARIANT

5.1. Mae'r rhagolygon cyllidebol cyfredol ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol 2020/21 fel a ganlyn (yr holl amcangyfrifon wedi'u cyllidebu ar wahân i'r rhai sydd â *):

RHAGOLYGON GWARIANT (WEDI EI YMRWYMO)	
Gwefan TCC	£6,925.00
Ffioedd Ymgynghorwr – Joe Flanagan	£10,000.00
Ffioedd Ymgynghorwr - Paul Griffiths	£10,000.00
Astudiaeth Dichonoldeb Hydrogen	£10,000.00
Astudiaeth Ymchwil ac Arloesi	£25,000.00
Costau Cyflog Swyddog Arweiniol Hydref 20 - Mawrth 21*	£31,904.40
Costau Swyddog Arweiniol Ynni @ 40%*	£8,979.62
	£102,809.02

RHAGOLYGON GWARIANT (HEB EU YMRWYMO)	
Dichonoldeb Rhaglen Digidol	£15,000
Ffioedd Cyfreithiol – SLA i ESF B5 a IAA2	£15,000
Cefnogaeth Datblygu'r Portffolio (i'w sgopio) – gwaelodlin economaidd + gwaith gosod amcanion buddsoddi	£15,000
Hyfforddiant Astudiaethau Achos pellach (i'r PMO a swyddogion arweiniol)	£5,000
	£50,000

5.2. Daw hyn a'r cyfanswm rhagolygon gwariant i **£152,809.02**

5.3. Cyfanswm gwariant hyd yma ac y rhagolygon gwariant = **£197,088.80**

5.4. Balans yn weddill (heb ei ddyrannu eto) = **£1,713.71**

6. Astudiaethau Dichonoldeb tu hwn i'r Gyllideb

6.1. Mae dau ddarn o waith yn cael eu hariannu tu hwnt i'r gyllideb TCC:

Astudiaeth Tir ac Eiddo

6.2. Cafodd y gwaith yma ei ariannu cyn ac ar wahân i'r gyllideb refeniw TCC.

6.3. Fel o 30/09/20, cafodd £8,890 ei wario yn 2020/21, gyda £13,435 yn weddill. Mae hyn yn dod a gwariant rhagolwg 202/21 i £22,325.

Astudiaeth Ymchwil ac Arloesedd

6.4. Cost llawn y gwaith = £50k

6.5. Mae £25k wedi ei ymrwymo o'r gyllideb refeniw TCC.

6.6. Mae £25k pellach yn cael ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru at y gwaith.

7. Ymrwymiadau 2021/21 ymlaen

7.1. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ymrwymiadau ffurfiol i gyllideb refeniw Bwrdd TCC ar ôl 2020/21.

7.2. Mae sgyrsiau yn parhau mewn perthynas â sicrhau'r arian cyfatebol gofynnol i dynnu cyllid ESF ar gyfer Swyddfa'r Rhaglen.

7.3. Bydd disgwyl hefyd am gymorth refeniw i weithredu'r rhaglen waith sy'n ofynnol. Bydd angen ystyried a chynllunio hyn i mewn i Gynlluniau Ariannol Tymor Canolig y ddau Awdurdod Lleol.

8. Goblygiadau Cyfreithiol

8.1. Nid oes goblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad.

9. Goblygiadau Adnoddau Dynol

9.1. Nid oes goblygiadau adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad.

10. Goblygiadau Ariannol

10.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa ariannol gyfredol. Mae'r costau gwirioneddol hyd yn hyn ynghyd ag ymrwymiadau presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio o fewn cyfanswm y gyllideb sydd ar gael. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r sefyllfa ar ôl 01/04/2021 maes o law.

11. Atodiadau

- Dim